**Statws** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 87

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Cymunedau) 2026

*Gwnaed - - - - 17 Mawrth 2026*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru(**1**) ("y Comisiwn"), o dan adran 36(5)(a) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013(**2**) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Ebrill 2024 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion adolygiad o'r trefniadau cymunedol o fewn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn heb addasiadau. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud darpariaeth atodol fel y'i hystyrir yn angenrheidiol neu'n hwylus.

O dan adran 37(3A) a (3B) o Ddeddf 2013(**3**), mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ac mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi datganiad yn nodi eu penderfyniad ar gyfer pob argymhelliad o dan adran 37(6) o Ddeddf 2013(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 37(1) a 40(1) a (2)(a) o Ddeddf 2013. O dan adran 37(2A) o Ddeddf 2013(**5**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn fwy na 6 mis cyn diwrnod etholiad cyngor cyffredin o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**6**).

---

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Gwnaeth Deddf 2013 ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2(2)). Gwnaeth Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (gweler adran 12).

(**2**) 2013 dccc 4. Gwnaeth Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ailenwi enw byr Deddf 2013 yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (gweler adran 11).

(**3**) Rhoddwyd adran 37(3A) a (3B) yn lle adran 37(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan adran 43(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5).

(**4**) Mewnosodwyd adran 37(6) gan adran 49(2)(b) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**5**) Mewnosodwyd adran 37(2A) gan adran 47(3) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**6**) Amnewidiwyd adran 26 gan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 26 gan O.S. 2019/1269 (Cy. 220) i ddarparu mai'r flwyddyn y mae rhaid i etholiad cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol gael eu cynnal yw 2022 yn hytrach na 2021. Diwygiwyd adran 26(1) ymhellach gan adran 14(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) i ddarparu bod rhaid i etholiadau gael eu cynnal bob pumed flwyddyn ar ôl 2022.

## Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Cymunedau) 2026.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mai 2026.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym am 23:59 o'r gloch ar y diwrnod cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2027.

## Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**7**);

ystyr "newydd" ("*new*") yw ward etholiadol neu gymuned, ward gymunedol neu gyngor cymuned y'i sefydlir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**8**);

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir cynghorwyr drosti i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 34 o fapiau a farciwyd "Map ar gyfer Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Cymunedau) 2026", a adneuwyd o dan reoliad 5 o'r Rheoliadau, a labelwyd "1" i "34", ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

pan ddangosir ar fap bod ffin yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

(2) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf 1972 neu orchymyn a wnaed o dan adrannau 37(1), 38(1) neu 39(1) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

## Y Barri — Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown, Illtud, a Glannau'r Barri, newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**3.** Mae'r rhan o ward Baruc o gymuned Y Barri a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Illtud o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Illtud.

**4.** Mae'r rhan o ward Baruc o gymuned Y Barri a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Glannau'r Barri o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol newydd Glannau'r Barri.

(**7**) 1972 p. 70.

(**8**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol, y ceir diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn). Mae adran 74(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â Gorchymynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).

**5.** Mae'r rhan o ward Buttrills o gymuned Y Barri a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 3—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Illtud o gymuned y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Illtud.

**6.** Mae'r rhan o ward Buttrills o gymuned Y Barri a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 3—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Dyfan o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dyfan.

**7.** Mae'r rhan o ward Buttrills o gymuned Y Barri a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Glannau'r Barri o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol newydd Glannau'r Barri.

**8.** Mae'r rhannau o ward Cadog o gymuned Y Barri a ddangosir wedi eu graddliwio a'u rhifo 3 a 4 ar Fap 3—

(a) wedi eu trosglwyddo i ward gymunedol Court o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Court.

**9.** Mae'r rhan o ward Castleland o gymuned Y Barri a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 4 ar Fap 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Glannau'r Barri o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol newydd Glannau'r Barri.

**10.** Mae'r rhan o ward Gibbonsdown o gymuned Y Barri a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 4—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Dyfan o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dyfan.

**11.** Mae'r rhan o ward Gibbonsdown o gymuned Y Barri a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 4—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Cadog o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cadog.

**12.** Mae'r rhannau o ward Illtud o gymuned Y Barri a ddangosir wedi eu graddliwio a'u rhifo 1 a 2 ar Fap 2—

(a) wedi eu trosglwyddo i ward gymunedol Dyfan o gymuned Y Barri;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dyfan.

### Creu ward gymunedol newydd Glannau'r Barri

**13.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Y Barri o'r enw Glannau'r Barri yn Gymraeg a Waterfront yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardaloedd a ddangosir wedi eu graddliwio a'u rhifo 2, 3 a 4 ar Fap 1;

(b) yn ffurfio ward etholiadol newydd Glannau'r Barri.

### Y Barri — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**14.** Yng nghymuned Y Barri, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Baruc yw 3;

(b) ward Buttrills yw 2;

(c) ward Cadog yw 4;

(d) ward Castleland yw 2;

(e) ward Court yw 2;

(f) ward Dyfan yw 3;

(g) ward Gibbonsdown yw 2;

(h) ward Illtud yw 3;

(i) ward Glannau'r Barri yw 2.

### Glannau'r Barri — trefniadau ward etholiadol

**15.** Mae ward etholiadol newydd wedi ei chreu o'r enw Glannau'r Barri yn Gymraeg a Waterfront yn Saesneg ac sy'n cynnwys ardal ward gymunedol Glannau'r Barri.

**16.** Yn ward etholiadol Glannau'r Barri, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 2.

### Penarth — Cornerswell, Cosmeston, Plymouth, a Stanwell, newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**17.** Mae'r rhan o ward Murch o gymuned Dinas Powys a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 5—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Penarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Cornerswell;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cornerswell.

**18.** Mae'r rhan o ward Larnog o gymuned Sili a Larnog a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 6—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Penarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Cosmeston;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol newydd Cosmeston.

**19.** Mae'r rhan o ward Plymouth o gymuned Penarth a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 6—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Cosmeston o gymuned Penarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol newydd Cosmeston.

**20.** Mae'r rhan o ward Plymouth o gymuned Penarth a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 4 ar Fap 5—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Stanwell o gymuned Penarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Stanwell.

**21.** Mae'r rhan o ward Murch o gymuned Dinas Powys a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 5—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Penarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Stanwell;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Stanwell.

**22.** Mae'r rhan o ward Murch o gymuned Dinas Powys a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 5—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Penarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Plymouth;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Plymouth.

### Creu ward gymunedol newydd Cosmeston

**23.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Penarth o'r enw Cosmeston yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardaloedd a ddangosir wedi eu graddliwio a'u rhifo 1 a 2 ar Fap 6;

(b) yn ffurfio ward etholiadol newydd Cosmeston.

### Penarth — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**24.** Yng nghymuned Penarth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Cornerswell yw 4;

(b) ward Cosmeston yw 1;

(c) ward Plymouth yw 4;

(d) ward St Augustine's yw 5;

(e) ward Stanwell yw 3.

### Cosmeston — trefniadau ward etholiadol

**25.** Mae ward etholiadol newydd wedi ei chreu o'r enw Cosmeston yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sy'n cynnwys ardal ward gymunedol Cosmeston.

**26.** Yn ward etholiadol Cosmeston, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Sili a Larnog — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**27.** Yng nghymuned Sili a Larnog, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Sili yw 6;

(b) ward Larnog yw 1.

### Llanilltud Fawr — Trebefered, Gogledd, De-ddwyrain, a Gorllewin, newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**28.** Mae'r rhan o ward Llan-faes o gymuned Llan-faes a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 7—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanilltud Fawr;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Trebefered;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanilltud Fawr.

**29.** Mae'r rhan o ward y Gorllewin o gymuned Llanilltud Fawr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 8—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol y De-ddwyrain o gymuned Llanilltud Fawr;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanilltud Fawr.

### Llanilltud Fawr — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**30.** Yng nghymuned Llanilltud Fawr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Trebefered yw 5;

(b) ward y Gogledd yw 5;

(c) ward y De-ddwyrain yw 3;

(d) ward y Gorllewin yw 2.

### Llanilltud Fawr — trefniadau ward etholiadol

**31.** Mae ward etholiadol Llanilltud Fawr yn cynnwys cymuned Llanilltud Fawr.

**32.** Yn ward etholiadol Llanilltud Fawr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 4.

### Y Bont-faen gyda Llanfleiddan — Aberthin, Y Bont-faen, Dwyrain Llanfleiddan, a Gorllewin Llanfleiddan, newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**33.** Mae'r rhan o ward Pen-llin o gymuned Pen-llin a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 9—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Gogledd y Bont-faen;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

**34.** Mae'r rhan o ward Gorllewin Llanfleiddan o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 9—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Gogledd y Bont-faen o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

**35.** Mae'r rhan o ward Gorllewin Llanfleiddan o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 10—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Canol y Bont-faen o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

**36.** Mae'r rhan o ward Dwyrain Llanfleiddan o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 10—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Canol y Bont-faen o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

**37.** Mae'r rhannau o ward Dwyrain Llanfleiddan o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 11—

(a) wedi eu cyfuno â ward Gorllewin Llanfleiddan o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn i ffurfio ward gymunedol newydd Llanfleiddan o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

### Diddymu wardiau cymunedol Y Bont-faen, Gorllewin Llanfleiddan, a Dwyrain Llanfleiddan

**38.** Mae'r wardiau a ganlyn o gymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan fel y'u newidir gan y Gorchymyn hwn wedi eu diddymu—

(a) Y Bont-faen;

(b) Gorllewin Llanfleiddan;

(c) Dwyrain Llanfleiddan.

### Creu ward gymunedol newydd Gogledd y Bont-faen

**39.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan o'r enw Gogledd y Bont-faen yn Gymraeg a Cowbridge North yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardaloedd a ddangosir wedi eu graddliwio a'u rhifo 1 a 2 ar Fap 9;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

### Creu ward gymunedol newydd Canol y Bont-faen

**40.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan o'r enw Canol y Bont-faen yn Gymraeg a Cowbridge Central yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardaloedd a ddangosir wedi eu graddliwio a'u rhifo 1 a 2 ar Fap 10;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

### Creu ward gymunedol newydd Llanfleiddan

**41.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan o'r enw Llanfleiddan yn Gymraeg a Llanblethian yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 12;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

**42.** Yng nghymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Aberthin yw 2;

(b) ward Canol y Bont-faen yw 6;

(c) ward Gogledd y Bont-faen yw 4;

(d) ward Llanfleiddan yw 3.

### Y Bont-faen — trefniadau ward etholiadol

**43.** Mae ward etholiadol Y Bont-faen yn cynnwys cymuned Y Bont-faen gyda Llanfleiddan a chymuned Pen-llin.

**44.** Yn ward etholiadol Y Bont-faen, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 3.

### Pen-llin — Llansanwyr, ac Ystradowen, newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**45.** Mae'r rhan o ward Pen-llin o gymuned Pen-llin a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 13—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Llansanwyr o gymuned Pen-llin;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

**46.** Mae'r rhan o ward Ystradowen o gymuned Pen-llin a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 14—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Llansanwyr o gymuned Pen-llin;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

**47.** Mae'r rhan o ward Llanddunwyd o gymuned Llanddunwyd a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 15—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pen-llin;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Ystradowen;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Bont-faen.

### Llansanwyr — newid enw ward gymunedol

**48.** Enw ward Llansanwyr o gymuned Pen-llin fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Llansanwyr yn Gymraeg ac erys yr enw Llansannor yn Saesneg.

### Pen-llin — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**49.** Yng nghymuned Pen-llin, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Llansanwyr yw 2;

(b) ward Pen-llin yw 3;

(c) ward Ystradowen yw 4.

### Dinas Powys — Cross Common, Eastbrook, Murch, a Twyn, newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**50.** Mae'r rhan o ward Cross Common o gymuned Dinas Powys a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 16—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Murch o gymuned Dinas Powys;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dinas Powys.

**51.** Mae'r rhan o ward Cross Common o gymuned Dinas Powys a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 17—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Twyn o gymuned Dinas Powys;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dinas Powys.

**52.** Mae'r rhan o ward Twyn o gymuned Dinas Powys a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 16—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Cross Common o gymuned Dinas Powys;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dinas Powys.

**53.** Mae'r rhan o ward Llanfihangel-y-pwll o gymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 18—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Dinas Powys;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Eastbrook;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dinas Powys.

### Dinas Powys — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**54.** Yng nghymuned Dinas Powys, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Cross Common yw 4;

(b) ward Eastbrook yw 4;

(c) ward Murch yw 4;

(d) ward Twyn yw 4.

### Dinas Powys — trefniadau ward etholiadol

**55.** Mae ward etholiadol Dinas Powys yn cynnwys cymuned Dinas Powys.

**56.** Yn ward etholiadol Dinas Powys, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 4.

### Llandochau, a Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd —diddymu cymunedau Llandochau, a Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, newidiadau i gynghorau cymuned a threfniadau etholiadol

**57.** Mae cymuned Llandochau wedi ei diddymu.

**58.** Mae cyngor cymuned Llandochau wedi ei ddiddymu.

**59.** Mae cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**60.** Mae cyngor cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llandochau a Chwrtyrala

**61.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Llandochau a Chwrtyrala yn Gymraeg a Llandough and Cwrtyrala yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 19;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Llandochau.

### Creu ward gymunedol newydd Llandochau

**62.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandochau a Chwrtyrala o'r enw Llandochau yn Gymraeg a Llandough yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 19;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandochau.

### Creu ward gymunedol newydd Lecwydd

**63.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandochau a Chwrtyrala o'r enw Lecwydd yn Gymraeg a Leckwith yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 19;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandochau.

### Creu ward gymunedol newydd Llanfihangel-y-pwll

**64.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandochau a Chwrtyrala o'r enw Llanfihangel-y-pwll yn Gymraeg a Michaelston yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 19;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandochau.

### Llandochau a Chwrtyrala — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol cymunedol

**65.** Mae cyngor ar gyfer cymuned Llandochau a Chwrtyrala wedi ei sefydlu.

**66.** Yng nghymuned Llandochau a Chwrtyrala, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Llandochau yw 6;

(b) ward Lecwydd yw 1;

(c) ward Llanfihangel-y-pwll yw 1.

### Llandochau — trefniadau ward etholiadol

**67.** Mae ward etholiadol Llandochau yn cynnwys cymuned Llandochau a Chwrtyrala.

**68.** Yn ward etholiadol Llandochau, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Llancarfan, Sain Siorys, Sain Nicolas a Thresimwn, Gwenfô, Pendeulwyn, a Llanddunwyd — newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**69.** Mae'r rhan o ward Sain Siorys o gymuned Sain Siorys a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 20—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Sain Nicolas a Thresimwn;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Sain Nicolas;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**70.** Mae'r rhan o ward Llwyneliddon o gymuned Gwenfô a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 21—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Sain Nicolas a Thresimwn;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Sain Nicolas;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**71.** Mae'r rhan o ward Sain Nicolas o gymuned Sain Nicolas a Thresimwn a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 22—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanbedr-y-fro;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro.

**72.** Mae'r rhan o ward Tresimwn o gymuned Sain Nicolas a Thresimwn a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 23—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Sain Nicolas o gymuned Sain Nicolas a Thresimwn;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**73.** Mae'r rhan o ward Pendeulwyn o gymuned Pendeulwyn a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 4 ar Fap 23—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Sain Nicolas a Thresimwn;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Tresimwn;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**74.** Mae'r rhan o ward Llanddunwyd o gymuned Llanddunwyd a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 5 ar Fap 23—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Sain Nicolas a Thresimwn;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Tresimwn;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**75.** Mae'r rhannau o ward Llantriddyd o gymuned Llancarfan a ddangosir wedi eu graddliwio a'u rhifo 3 ar Fap 23—

(a) wedi eu trosglwyddo i gymuned Sain Nicolas a Thresimwn;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Tresimwn;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**76.** Mae'r rhan o ward Llancarfan o gymuned Llancarfan a ddangosir wedi ei graddliwio a'u rhifo 2 ar Fap 23—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Sain Nicolas a Thresimwn;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Tresimwn;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**77.** Mae'r rhan o ward Llwyneliddon o gymuned Gwenfô a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 24—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llancarfan;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Llancarfan;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**78.** Mae'r rhan o ward Sain Nicolas o gymuned Sain Nicolas a Thresimwn a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 24—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llancarfan;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Llancarfan;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

**79.** Mae'r rhan o ward Llwyneliddon o gymuned Gwenfô a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 25—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Gwenfô o gymuned Gwenfô;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gwenfô.

**80.** Mae'r rhan o ward Gwenfô o gymuned Gwenfô a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 26—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Parc Gwenfô o gymuned Gwenfô;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gwenfô.

**81.** Mae'r rhan o ward Llwyneliddon o gymuned Gwenfô a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 26—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Parc Gwenfô o gymuned Gwenfô;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gwenfô.

**82.** Mae'r rhan o ward Llwyneliddon o gymuned Gwenfô a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 26—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Dyffryn o gymuned Sain Nicolas a Thresimwn;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

### Creu ward gymunedol newydd Parc Gwenfô

**83.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Gwenfô o'r enw Parc Gwenfô yn Gymraeg a Brooklands yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 27;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gwenfô.

### Diddymu ward gymunedol Llwyneliddon

**84.** Mae ward Llwyneliddon o gymuned Gwenfô fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

### Creu ward gymunedol newydd Dyffryn

**85.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Sain Nicolas a Thresimwn o'r enw Dyffryn yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 28;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.

### Llantriddyd — newid enw ward gymunedol

**86.** Enw ward Llantriddyd o gymuned Llancarfan fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Llantriddyd yn Gymraeg ac erys yr enw Llantrithyd yn Saesneg.

### Llancarfan — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**87.** Yng nghymuned Llancarfan, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Llancarfan yw 5;

(b) ward Llantriddyd yw 2.

### Sain Nicolas a Thresimwn — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**88.** Yng nghymuned Sain Nicolas a Thresimwn, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Tresimwn yw 4;

(b) ward Sain Nicolas yw 6;

(c) ward Dyffryn yw 1.

### Gwenfô — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**89.** Yng nghymuned Gwenfô, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Parc Gwenfô yw 4;

(b) ward Gwenfô yw 6.

### Sain Nicolas a Llancarfan — trefniadau ward etholiadol

**90.** Mae ward etholiadol Sain Nicholas a Llancarfan yn cynnwys cymunedau Llancarfan, a Sain Nicolas a Thresimwn.

**91.** Yn ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Gwenfô — trefniadau ward etholiadol

**92.** Mae ward etholiadol Gwenfô yn cynnwys cymuned Gwenfô.

**93.** Yn ward etholiadol Gwenfô, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Llanbedr-y-fro, a Sain Siorys — diddymu cymunedau Llanbedr-y-fro a Sain Siorys a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**94.** Mae cymuned Llanbedr-y-fro fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**95.** Mae cyngor cymuned Llanbedr-y-fro wedi ei ddiddymu.

**96.** Mae cymuned Sain Siorys fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**97.** Mae cyngor cymuned Sain Siorys wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llanbedr-y-fro a Sain Siorys

**98.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Llanbedr-y-fro a Sain Siorys yn Gymraeg a Peterston and St Georges yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 29;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro.

### Creu ward gymunedol newydd Llanbedr-y-fro

**99.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys o'r enw Llanbedr-y-fro yn Gymraeg a Peterston-super-Ely yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 29;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro.

### Creu ward gymunedol newydd Llansanffraid-ar-Elái

**100.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys o'r enw Llansanffraid-ar-Elái yn Gymraeg a St Brides-super-Ely yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 29;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro.

### Creu ward gymunedol newydd Sain Siorys

**101.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys o'r enw Sain Siorys yn Gymraeg a St Georges-super-Ely yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 29;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro.

### Llanbedr-y-fro a Sain Siorys — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**102.** Mae cyngor ar gyfer cymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys wedi ei sefydlu.

**103.** Yng nghymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Llanbedr-y-fro yw 4;

(b) ward Llansanffraid-ar-Elái yw 1;

(c) ward Sain Siorys yw 2.

### Llanbedr-y-fro — trefniadau ward etholiadol

**104.** Mae ward etholiadol Llanbedr-y-fro yn cynnwys cymuned newydd Llanbedr-y-fro a Sain Siorys a chymuned newydd Pendeulwyn a Llanddunwyd.

**105.** Yn ward etholiadol Llanbedr-y-fro, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Pendeulwyn a Llanddunwyd — diddymu cymunedau Pendeulwyn a Llanddunwyd a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**106.** Mae cymuned Pendeulwyn fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**107.** Mae cyngor cymuned Pendeulwyn wedi ei ddiddymu.

**108.** Mae cymuned Llanddunwyd fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**109.** Mae cyngor cymuned Llanddunwyd wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Pendeulwyn a Llanddunwyd

**110.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Pendeulwyn a Llanddunwyd yn Gymraeg a Pendoylan and Welsh St Donats yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 30;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro.

### Creu ward gymunedol newydd Pendeulwyn

**111.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd o'r enw Pendeulwyn yn Gymraeg a Pendoylan yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 30;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro.

### Creu ward gymunedol newydd Llanddunwyd

**112.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd o'r enw Llanddunwyd yn Gymraeg a Welsh St Donats yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 30;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro.

### Pendeulwyn a Llanddunwyd — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**113.** Mae cyngor ar gyfer cymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd wedi ei sefydlu.

**114.** Yng nghymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Pendeulwyn yw 4;

(b) ward Llanddunwyd yw 4.

### Llandŵ, Llan-fair, a Llan-faes — diddymu cymunedau Llandŵ, Llan-fair, a Llan-faes, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**115.** Mae cymuned Llandŵ wedi ei diddymu.

**116.** Mae cyngor cymuned Llandŵ wedi ei ddiddymu.

**117.** Mae cymuned Llan-fair wedi ei diddymu.

**118.** Mae cyngor cymuned Llan-fair wedi ei ddiddymu.

**119.** Mae cymuned Llan-faes fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**120.** Mae cyngor cymuned Llan-faes wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes

**121.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes yn Gymraeg a Llandow, Llanfair and Llanmaes yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 31;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Llandŵ

**122.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes o'r enw Llandŵ yn Gymraeg a Llandow yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 31;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Llanfihangel y Bont-faen

**123.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes o'r enw Llanfihangel y Bont-faen yn Gymraeg a Llanmihangel yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 31;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Llyswyrny

**124.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes o'r enw Llyswyrny yn Gymraeg a Llysworney yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 31;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Llan-faes

**125.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes o'r enw Llan-faes yn Gymraeg a Llanmaes yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 4 ar Fap 31;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Llan-fair

**126.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes o'r enw Llan-fair yn Gymraeg a Llanfair yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 5 ar Fap 31;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Saint Hilari

**127.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes o'r enw Saint Hilari yn Gymraeg a St Hilary yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 6 ar Fap 31;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**128.** Mae cyngor ar gyfer cymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes wedi ei sefydlu.

**129.** Yng nghymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Llandŵ yw 2;

(b) ward Llanfihangel y Bont-faen yw 1;

(c) ward Llyswyrny yw 2;

(d) ward Llan-faes yw 3;

(e) ward Llan-fair yw 3;

(f) ward Saint Hilari yw 2.

### Llandŵ — trefniadau ward etholiadol

**130.** Mae ward etholiadol Llandŵ yn cynnwys cymuned newydd Tregolwyn a Llanganna a chymuned newydd Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes.

**131.** Yn ward etholiadol Llandŵ, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Tregolwyn, a Llanganna — diddymu cymunedau Tregolwyn a Llanganna a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**132.** Mae cymuned Tregolwyn wedi ei diddymu.

**133.** Mae cyngor cymuned Tregolwyn wedi ei ddiddymu.

**134.** Mae cymuned Llanganna wedi ei diddymu.

**135.** Mae cyngor cymuned Llanganna wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Tregolwyn a Llanganna

**136.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Tregolwyn a Llanganna yn Gymraeg a Colwinston and Llangan yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 32;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Tregolwyn

**137.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Tregolwyn a Llanganna o'r enw Tregolwyn yn Gymraeg a Colwinston yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 32;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Eglwys Fair y Mynydd

**138.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Tregolwyn a Llanganna o'r enw Eglwys Fair y Mynydd yn Gymraeg a St Mary Hill yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 32;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Creu ward gymunedol newydd Llanganna

**139.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Tregolwyn a Llanganna o'r enw Llanganna yn Gymraeg a Llangan yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 32;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandŵ.

### Tregolwyn a Llanganna — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**140.** Mae cyngor ar gyfer cymuned Tregolwyn a Llanganna wedi ei sefydlu.

**141.** Yng nghymuned Tregolwyn a Llanganna, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Tregolwyn yw 3;

(b) ward Llanganna yw 3;

(c) ward Eglwys Fair y Mynydd yw 1.

### Ewenni a Saint-y-brid — diddymu cymunedau Ewenni a Saint-y-brid a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**142.** Mae cymuned Ewenni wedi ei diddymu.

**143.** Mae cyngor cymuned Ewenni wedi ei ddiddymu.

**144.** Mae cymuned Saint-y-brid wedi ei diddymu.

**145.** Mae cyngor cymuned Saint-y-brid wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Ewenni a Saint-y-brid

**146.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Ewenni a Saint-y-brid yn Gymraeg ac Ewenny and St Bride's Major yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 33;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Creu ward gymunedol newydd Ewenni

**147.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Ewenni a Saint-y-brid o'r enw Ewenni yn Gymraeg ac Ewenny yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 33;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Creu ward gymunedol newydd Aberogwr

**148.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Ewenni a Saint-y-brid o'r enw Aberogwr yn Gymraeg ac Ogmore-by-Sea yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 33;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Creu ward gymunedol newydd Saint-y-brid

**149.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Ewenni a Saint-y-brid o'r enw Saint-y-brid yn Gymraeg a St Bride's Major yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 33;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Ewenni a Saint-y-brid — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**150.** Mae cyngor wedi ei sefydlu ar gyfer cymuned Ewenni a Saint-y-brid.

**151.** Yng nghymuned Ewenni a Saint-y-brid, nifer y cynghorwyr swydd i'w hethol dros—

(a) ward Ewenni yw 3;

(b) ward Aberogwr yw 6;

(c) ward Saint-y-brid yw 4.

### Saint-y-brid — trefniadau ward etholiadol

**152.** Mae ward etholiadol Saint-y-brid yn cynnwys cymuned newydd Ewenni a Saint-y-brid a chymuned newydd Sain Dunwyd a'r Wig.

**153.** Yn ward etholiadol Saint-y-brid, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 2.

### Sain Dunwyd a'r Wig — diddymu cymunedau Sain Dunwyd a'r Wig a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**154.** Mae cymuned Sain Dunwyd wedi ei diddymu.

**155.** Mae cyngor cymuned Sain Dunwyd wedi ei ddiddymu.

**156.** Mae cymuned Y Wig wedi ei diddymu.

**157.** Mae cyngor cymuned Y Wig wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Sain Dunwyd a'r Wig

**158.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Sain Dunwyd a'r Wig yn Gymraeg a St Donats and Wick yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 34;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Creu ward gymunedol newydd Marcroes

**159.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Sain Dunwyd a'r Wig o'r enw Marcroes yn Gymraeg a Marcross yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 34;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Creu ward gymunedol newydd Yr As Fawr

**160.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Sain Dunwyd a'r Wig o'r enw Yr As Fawr yn Gymraeg a Monknash yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 34;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Creu ward gymunedol newydd Sain Dunwyd

**161.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Sain Dunwyd a'r Wig o'r enw Sain Dunwyd yn Gymraeg a St Donats yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 34;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Creu ward gymunedol newydd Y Wig

**162.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Sain Dunwyd a'r Wig o'r enw Y Wig yn Gymraeg a Wick yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 4 ar Fap 34;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Saint-y-brid.

### Sain Dunwyd a'r Wig — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**163.** Mae cyngor ar gyfer cymuned Sain Dunwyd a'r Wig wedi ei sefydlu.

**164.** Yng nghymuned Sain Dunwyd a'r Wig, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Marcroes yw 1;

(b) ward Yr As Fawr yw 1;

(c) ward Sain Dunwyd yw 2;

(d) ward Y Wig yw 5.

### Treuliau cychwynnol etc. cynghorau cymuned newydd

**165.**—(1) Yn yr erthygl hon—

ystyr "yr awdurdod bilio arfaethedig" ("*the prospective billing authority*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**9**);

(**9**) 1992 p. 14. Diwygiwyd adrannau 32 a 35, o ran Cymru, gan baragraffau 4 a 6 yn y drefn honno o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 32 ymhellach gan baragraff 10 o Atodlen 7 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) ac O.S. 2013/216 (Cy. 28), ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn. Diwygiwyd adran 35 gan baragraff 13 o Atodlen 7 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 a pharagraff 6 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol at ddibenion

ystyr "y flwyddyn ariannol berthnasol" ("*the relevant financial year*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2027.

(2) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 32 o Ddeddf 1992 (cyfrifo gofynion cyllideb gan awdurdodau bilio) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai—

(a) wrth wneud cyfrifiad o dan adran 32(2)(a) o Ddeddf 1992—

(i) y swm a hysbysir o dan baragraff (6) o'r erthygl hon yn eitem a grybwyllir yn adran 35(1) o Ddeddf 1992 (eitemau arbennig) sy'n ymwneud â'r gymuned newydd, a

(ii) ardal yr awdurdod bilio arfaethedig yn cynnwys y gymuned newydd;

(b) is-adran (6) wedi ei hepgor.

(3) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 41 o Ddeddf 1992 (dyroddi praeseptau gan awdurdodau praeseptio lleol) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai'n ofynnol i'r awdurdod bilio arfaethedig, wrth wneud cyfrifiadau o dan adran 32 o Ddeddf 1992 (yn wreiddiol neu drwy amnewid) yn ei amcangyfrif o dan adran 32(2)(a), ystyried swm sy'n hafal i'r hyn a hysbysir iddo o dan baragraff (6) o'r erthygl hon.

(4) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adrannau 52X(1) (cyfrifiadau i fod yn net o braeseptau) a 52Y(2) (gwybodaeth at ddibenion Pennod 4A) o Ddeddf 1992 yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai cyfanswm cyfanredol y praeseptau a ragwelir gan yr awdurdod bilio arfaethedig o dan reoliadau a wnaed o dan adran 41 o Ddeddf 1992 yn cynnwys y symiau a hysbysir i'r cynghorau cymuned newydd o dan baragraff (6) o'r erthygl hon.

(5) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 50 o Ddeddf 1992 (cyfrifo gofyniad cyllideb gan awdurdodau praeseptio lleol) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig fel pe bai'n ofynnol i bob un o'r cynghorau cymuned newydd sicrhau nad yw'r swm a gyfrifwyd fel ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn honno yn fwy na'r swm a hysbysir i'r cyngor cymuned newydd hwnnw o dan baragraff (6) o'r erthygl hon.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod am y swm priodol sydd i'w hysbysu i bob un o'r cynghorau cymuned newydd o dan y paragraff hwn yn ysgrifenedig i'r awdurdod bilio arfaethedig ac i bob un o'r cynghorau cymuned newydd.

(7) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995(**10**) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig fel pe bai—

(a) rheoliad 5 (gwybodaeth am amserlenni talu) wedi ei hepgor;

(b) ym mharagraff 8 o'r Atodlen (rheolau i benderfynu'r cyfnodau amser ar gyfer rhandaliadau)—

(i) yn is-baragraffau (1), (2) a (3), y geiriau ar ôl y cyfeiriad cyntaf at "that financial year" wedi eu hepgor;

(ii) yn is-baragraff (1)(a), y cyfeiriad at "April" yn gyfeiriad at "May".

y Gorchymyn hwn. Diwygiwyd adran 41 gan baragraff 18 o Atodlen 7 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Diwygiwyd adran 50 gan Ran 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26). Mewnosodwyd adrannau 52X a 52Y gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (p. 27).

(**10**) O.S. 1995/2562, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

### Cynghorau cymuned newydd

**166.** Rhaid i swyddog priodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg gynnull cyfarfod cyntaf pob un o'r cynghorau cymuned newydd a sefydlir gan erthyglau 65, 102, 113, 128, 140, 150 a 163.

### Cynghorau cymuned newydd — olynwyr gweddilliol

**167.** At ddibenion unrhyw ddarpariaeth o'r Rheoliadau sy'n cyfeirio at olynydd gweddilliol awdurdod a ddiddymwyd—

(a) ar gyfer cynghorau cymuned Llandochau a Llanfihangel-y-pwll gyda Lecwydd, mae cyngor cymuned newydd Llandochau a Chwrtyrala wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(b) ar gyfer cynghorau cymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys, mae cyngor cymuned newydd Llanbedr-y-fro a Sain Siorys wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(c) ar gyfer cynghorau cymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd, mae cyngor cymuned newydd Pendeulwyn a Llanddunwyd wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(d) ar gyfer cynghorau cymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes, mae cyngor cymuned newydd Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(e) ar gyfer cynghorau cymuned Tregolwyn a Llanganna, mae cyngor cymuned newydd Tregolwyn a Llanganna wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(f) ar gyfer cynghorau cymuned Ewenni a Saint-y-brid, mae cyngor cymuned newydd Ewenni a Saint-y-brid wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(g) ar gyfer cynghorau cymuned Sain Dunwyd a'r Wig, mae cyngor cymuned newydd Sain Dunwyd a'r Wig wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol.

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Ebrill 2024 ar ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newidiadau i ffiniau cymunedau yn ardal Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, heb addasiadau. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaeth atodol, fel y'i hystyrir yn angenrheidiol neu'n hwylus gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â rhai enwau cymunedau.

Effaith y Gorchymyn hwn yw gwneud newidiadau i nifer o gymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diddymu nifer o gymunedau, yn diddymu eu cynghorau cymuned, yn creu cymunedau newydd a sefydlu cynghorau cymuned newydd, ac yn gwneud darpariaeth weinyddol ar gyfer gweithredu'r cynghorau cymuned newydd hynny a gosod praeseptau sy'n ymwneud â hwy.

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976, y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol a darpariaethau atodol ynghylch effaith gorchmynion megis y gorchymyn hwn a gweithredu'r gorchmynion hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "34" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Etholiadau), a chyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.